



Mr Dilwyn Owen Williams
Chief Executive
Gwynedd County Council
Council Offices
Shirehall Street,
Caernarfon
LL55 1SH

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

17 Ebrill 2015

Annwyl Mr Williams

**Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf
Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Angen Rhagor o Wybodaeth**

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi unwaith eto am ymateb yn brydlon i'm Gofynion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn rwyf wedi cael cyfle i ystyried yr holl ymatebion a ddaeth i law gan y cyrff a oedd yn rhan o fy Adolygiad ac rwyf yn amgáu fy ngwerthusiad o'ch ymateb.

Os oeddech chi wedi codi cwestiynau penodol gyda mi am fy Ngofynion Gweithredu, rwyf wedi atodi fy ymateb i'r rhain.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a'r camau a oedd yn cael eu cymryd neu a oedd ar y gweill, y bydd fy Ngofynion Gweithredu yn cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniad a geisir yn cael ei gyflawni.

Fel y gwelwch yn fy nadansoddiad, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen o'ch ymateb yn 'ymateb derbynol', yn 'ymateb rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'ymateb annerbynol'. Mae 'ymateb derbynol' yn golygu bod fy lefel o sicrwydd ar sail y wybodaeth a roddwyd yn ddigonol, mae 'ymateb rhannol' ac 'ymateb annerbynol' yn golygu fy mod i angen rhagor o wybodaeth er mwyn bod yn dawel fy meddwl y bydd y Gofyniad

Gweithredu yn cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad a geisir yn cael ei gyflawni.

Yn yr achosion hynny lle'r wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen o'ch ymateb un ai'n 'ymateb rhannol' neu'n 'ymateb annerbyniol', byddaf angen rhagor o wybodaeth, neu ddull gwahanol o weithredu, er mwyn i mi fodloni fy hun fod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Gofyniad Gweithredu, neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau'r newid sy'n ofynnol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon i mi erbyn **15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni sydd wedi'u pennu yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os ydych yn ansicr ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn enwedig yr hyn a fyddai'n rhoi'r lefel o sicrwydd yr wyf yn chwilio amdano, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau manwl ynglŷn â'r Gofynion Gweithredu, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn mynnu fy mod yn cadw cofrestr o'r ymatebion i fy Ngofynion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n rhan o fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan, ynghyd â dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i o'r farn, ar sail y wybodaeth bellach a ddaw i law, y bydd y newid rwyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei gyflawni. Yn ogystal â chyhoeddi'r wybodaeth hon ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, mewn perthynas â golwg gyffredinol o'r camau sy'n cael eu cymryd a'r camau sydd wedi cael eu cynllunio gan y cyrff unigol sy'n rhan o'r Adolygiad.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Daisy Cole, fy Nghyfarwyddwr Lles a Grymuso ar 08442 640670.

Yn gywir,



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Gwynedd

Gofyniad Gweithredu 1.6

Casgliad Cychwynnol – Ymateb yn Rhannol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu person hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r gofyniad hwn yn dangos ymwybyddiaeth o rôl eiriolwyr annibynnol ac yn cyfeirio'n fyr at yr ystod o wasanaethau a darparwyr yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at wasanaethau Eiriolaeth Annibynnol a gomisiynwyd gan Eiriolaeth Annibynnol Gogledd Cymru a'r Gymdeithas Cyngori.

Croesewir y ffaith ei bod yn ymddangos bod yr Awdurdod Lleol wedi canfod rhywfaint o fylchau a diffygion, a'i fod yn bwriadu rhoi sylw iddynt, yn rhannol drwy wneud i'r holl gartrefi gofal preswyl ddatblygu ac adolygu gwybodaeth i breswylwyr am Eiriolaeth Annibynnol, gan gynnwys datblygu posteri a phamffledi i godi ymwybyddiaeth. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod bod angen datblygu canllawiau a sicrhau ei fod yn defnyddio adborth gan bobl sydd wedi derbyn gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol.

Mae'r ymateb hefyd yn nodi y bydd Uned Comisiynu a Chontractau'r Awdurdod Lleol yn monitro ac yn adolygu'r defnydd o Eiriolaeth Annibynnol ac yn monitro safonau'r ddarpariaeth gwasanaeth, ac mae hyn i'w groesawu. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod angen mapio'r ddarpariaeth bresennol ac y bydd rheolwyr a staff cartrefi gofal

yn derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio Eiriolaeth Annibynnol yn effeithiol mewn cartrefi, ac mae hyn i'w groesawu hefyd.

Croesewir hefyd y ffaith fod yr Awdurdod Lleol yn bwriadu sicrhau bod gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol yn cael ei gynnig yn y sefyllfaoedd a ddisgrifir yn y camau gweithredu sy'n ofynnol. Fodd bynnag, byddai cynnwys cynllun gweithredu, amserlen ac enwau swyddogion atebol yn gwella'r ymateb hwn, yn ogystal â sicrwydd y bydd y Gofyniad hwn yn cael ei gyflawni.

Gofyniad Gweithredu 2.2

Casgliad Cychwynnol – Ymateb Derbyniol

2.2 Mae gan bobl hŷn mewn cartrefi gofal fynediad at wasanaethau arbenigol, a phan fo hynny'n briodol, at ofal amlddisgyblaethol, sydd wedi'i gynllunio i gefnogi ailsefydlu ar ôl cyfnod o afiechyd.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r gofyniad hwn yn dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ystod o ofal amlddisgyblaethol a'r gwasanaethau arbenigol sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi bod Unedau Canolraddol, Galluogi a Gofal eisoes wedi'u sefydlu mewn cartrefi gofal preswyl yn y tair ardal yng Ngwynedd.

Mae'r ymateb hefyd yn tynnu sylw at ddefnyddio unedau gofal tymor byr i roi cyfle i bobl hŷn un ai osgoi mynd i'r ysbyty neu i gyfnerthu neu ailddatblygu sgiliau yn dilyn cyfnod mewn ysbyty.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol hefyd yn amlygu dealltwriaeth o'r angen am gydweithio, gan gyfeirio at y gwaith parhaus gydag Ysbyty Gwynedd, lle mae cynllun gwaith saith diwrnod wedi'i gyflwyno yn yr ysbyty gyda Gweithiwr Cymdeithasol ac Asesydd Gofal, i hwyluso'r broses ar gyfer pobl hŷn sy'n gadael ysbyty ar benwythnosau.

O ran cynlluniau gweithredu, noda'r Awdurdod Lleol ei fod yn cydnabod yr angen i sicrhau bod holl aelodau staff yr unedau'n gweithio'n unol ag

egwyddorion galluogi, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau penodol ar gyfer yr unigolyn.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn nodi'r angen i adolygu'r cynllun gwaith saith diwrnod o ran lledaenu'r arfer.

Mae amserlenni ac arweinwyr wedi'u nodi yn yr ymateb.

Gofyniad Gweithredu 3.2

Casgliad Cychwynnol – Ymateb Derbyniol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o'r broses o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o asesu perfformiad a goruchwylio.

Mae'n ymddangos bod yr ymateb i'r gofyniad hwn yn dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd hyfforddiant dementia ac mae'n nodi bod yr Awdurdod Lleol eisoes wedi rhoi ar ddeall i reolwyr cartrefi gofal (mewnol) y dylai pob cartref ganolbwyntio ar wasanaeth / cefnogaeth emosiynol, yn hytrach nag ar dasgau.

Mae'r ymateb yn nodi bod staff cartrefi gofal eisoes yn derbyn Hyfforddiant ar dair lefel – Ymwybyddiaeth o Dementia (sylfaenol), Dementia Lefel 2 a Dementia Lefel 3. Mae'r Awdurdod Lleol yn mynd ymlaen i ddweud bod Rheolwyr Cofrestredig, Rheolwyr Cynorthwyol ac Uwch Gynorthwywyr wedi'u dynodi'n Arweinwyr Dementia yn y cartrefi, a phob un wedi derbyn hyfforddiant hyd at Lefel 3.

Cyfeiria'r Awdurdod Lleol at waith gyda'r Athro Bob Woods (Prifysgol Bangor) a David Sheard er mwyn dysgu o waith ymchwil a nodi arferion da.

Gofyniad Gweithredu 3.3

Casgliad Cychwynnol – Ymateb Derbyniol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, gan gynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch. Rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus at gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac at gymunedau diwylliannol penodol.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r gofyniad hwn yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o bwysigrwydd cyfeillio, a nodir bod yr arferion cyfredol yn canolbwyntio ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, felly'n canolbwyntio ar hanes, diddordebau a chysylltiadau'r preswylwyr, yn ogystal â'u hanghenion.

Â'r ymateb ymlaen i nodi bod gan nifer o'r cartrefi gysylltiadau agos â sefydliadau allanol, fel ysgolion, capeli ac eglwysi yn y cymunedau.

Mae'r ymateb yn rhoi sylw i bwyntiau allweddol y Gofynion ac yn cyflwyno tystiolaeth o hyrwyddo ac annog trefniadau amrywiol o ran cred ysbrydol/crefydd, dewis iaith a chynnal cysylltiadau y tu allan i'r cartref gofal.

Hefyd, mae'r ymateb yn tynnu sylw at gynlluniau gweithredu, sy'n cynnwys archwilio safon Cynlluniau mewn cartrefi, gan sicrhau eu bod oll yn dilyn Cynlluniau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Mae yma arwydd hefyd fod yr Awdurdod Lleol yn bwriadu cael cartrefi i ddatblygu cysylltiadau agosach â sefydliadau a mudiadau yn y gymuned.

Datgan yr ymateb hefyd fod yr Awdurdod Lleol yn edrych ar y posibilrwydd o hwyluso ymweliadau gan gyfeillion ac aelodau o'r teulu sy'n byw ymhell i ffwrdd drwy gynnig llety dros nos (mae fflatiau ar wahân yn nifer o'r cartrefi, nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach) neu drwy helpu gyda'r trefniadau llety.

Gofyniad Gweithredu 5.6

Casgliad Cychwynnol – Ymateb Derbyniol

5.6 Sefydlu Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal lle mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi

ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu achosion posib o dorri eu hawliau dynol.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio sgiliau Rheolwyr Cartrefi Gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol i wella safonau ansawdd bywyd a gofal preswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hwn hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi i gynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunan-ddatblygu a gwella'n barhaus.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos parodrwydd i gydymffurfio â'r gofyniad.

Gofyniad Gweithredu 6.2

Casgliad Cychwynnol – Ymateb yn Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (ar wahân i gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y materion a godir ganddynt.

Dylid paratoi adroddiadau blynyddol am sut y defnyddiwyd adborth parhaus gan bobl hŷn i sbarduno gwelliannau parhaus (gweler cam gweithredu 6.10).

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r gofyniad hwn yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd gwrandao ar leisiau pobl hŷn a sicrhau y gweithredir ar y materion a godir ganddynt. Mae'n datgan bod holl gartrefi gofal mewnol y Cyngor wedi cael eu hannog i sefydlu Pwyllgor Preswylwyr a Chyfeillion, gyda'r nod o roi cyfle i breswylwyr, teuluoedd a chyfeillion o'r gymuned leol i fynegi barn am y gofal a ddarperir mewn

cartrefi unigol ac awgrymu syniadau ynghylch y datblygiadau yr hoffent eu gweld yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi y bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol a bod camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r bylchau/diffygion, sy'n yn seiliedig ar adolygiad o lwyddiant y "Pwyllgorau" hyn ac er mwyn dysgu o'r adolygiad.

Datgan yr ymateb y bydd argymhellion yr adolygiad yn cael eu rhannu, ond nid yw'n datgan â phwy.

Gellid gwella'r ymateb petai'r Awdurdod Lleol yn asesu ac yn gwerthuso'r cynigion a'r gweithrediadau, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella'r canlyniadau i bobl hŷn.

Gofyniad Gweithredu 6.7

Casgliad Cychwynol – Ymateb yn Rhannol

6.7 Mae Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd Eiriolaeth Annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, gan gyfeirio'n benodol at bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu nam ar y synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol
- safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch ansawdd bywyd a gofal mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol am ofynion adrodd gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Nid yw ymateb yr Awdurdod Lleol i'r gofyniad hwn yn ymrwymo i baratoi Datganiadau Ansawdd Blynyddol nac yn cyfeirio'n uniongyrchol at hynny. Yn hytrach, mae'r ymateb yn trafod arferion cyfredol sy'n cynnwys Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol. Cyflwynir hwn i'r Cyngor llawn ac mae ar gael i'r cyhoedd fel copi caled neu ar y rhyngwrwd.

O ran y Cynlluniau Gweithredu, datgan yr Awdurdod Lleol y gallai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys Datganiad Ansawdd, yn unol â'r Gofyniad Gweithredu, gan ddilyn yr un amserlen a'r un broses â'r Adroddiad Blynyddol.

Yn hytrach na chydymffurfio'n glir â'r gofyniad, mae'r ymateb yn dynodi y bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried cyhoeddi'r adroddiad uchod fel atodiad i'r Adroddiad Blynyddol. Gellid gwella'r ymateb gyda datganiad yn egluro a fydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r gofyniad i gyhoeddi Datganiad Ansawdd Blynyddol neu beidio.